

**Y cymorth sydd ar gael os ydych yn denant sy'n
byw yng Nghymru – COVID-19**

Ebrill 2020

Cynnwys

1. Cyflwyniad

- i. Diben y canllaw hwn
- ii. Defnyddio'r canllaw hwn
- iii. Cadw'n ddiogel drwy Covid-19
- iv. Osgoi sgamiau a gweithgarwch twyllodrus

2. Y cymorth sydd ar gael drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

- i. Credyd Cynhwysol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Newydd (LCCh), Lwfans Ceisio Gwaith Newydd (LCG)
- ii. Tâl Salwch Statudol (SSP)
- iii. Y Cynllun Cadw Swyddi
- iv. Y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig
- v. Lwfans Tai Lleol (LHA)
- vi. Taliad Disgresiwn at Gostau Tai (DHP)
- vii. Newid mewn amgylchiadau gan gynnwys absenoldeb di-dâl, llai o oriau a chyflyrau iechyd
- viii. Blaenswm ad-daladwy drwy'r Credyd Cynhwysol
- ix. Apelio yn erbyn penderfyniad drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau

3. Cymorth drwy eich cyngor lleol

- i. Cymorth gyda'r dreth gyngor
- ii. Cymorth gyda digartrefedd
- iii. Cymorth arall

4. Help gyda'ch biliau bob dydd a'ch costau byw

- i. Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth
- ii. Dŵr
- iii. Nwy/trydan
- iv. Band eang a ffonau symudol
- v. Banciau / cardiau credyd / benthyciadau

- vi. Trwydded deledu
- vii. Prydau ysgol am ddim
- viii. Banciau bwyd

5. Help mewn argyfwng os oes gennych broblemau ariannol difrifol

- i. Cronfa Cymorth Dewisol (DAF)
- ii. Taliad Cymorth mewn Argyfwng (EAP)
- iii. Taliad Cymorth i Unigolion (IAP)

6. Help os yw eich landlord wedi dweud wrthy eich bod yn cael eich troi allan

- i. Siarad â'ch landlord neu asiant rheoli
- ii. Hysbysiad ceisio meddiant (NSP)
- iii. Achosion cymryd meddiant presennol

7. Lle gallwch fynd am ragor o gymorth, cefnogaeth ac arweiniad

- i. Cysylltiadau allweddol

1. Cyflwyniad

i. Diben y canllaw hwn

Gall Covid-19 fod yn boen meddwl arbennig os ydych yn cael trafferth talu eich biliau a/neu'ch rhent, ond mae cymorth a chynghor ar gael gan lawer o sefydliadau a lleoedd gwahanol. Mae rhywfaint o'r help a'r gefnogaeth hon yn newydd, wedi'u sefydlu i'ch helpu i ymdopi'n ariannol yn ystod yr argyfwng hwn, felly edrychwch i weld beth allai fod ar gael i chi.

Boed yn denant yn y sector cymdeithasol neu'r sector preifat, mae'n bwysig i chi siarad â'ch landlord cyn gynted â phosib os ydych yn meddwl efallai y byddwch yn cael trafferth talu eich rhent a'ch biliau, gan ei bod yn bosib y gallant eich helpu.

Diben y ddogfen hon yw rhoi cynghor i denantiaid ledled Cymru, a all fod yn rhentu gan y cynghor, gan gymdeithas dai (y sector cymdeithasol) neu gan landlord preifat (y sector preifat) ar y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd ledled Cymru i'ch helpu i barhau i dalu eich rhent a'ch biliau ac mae'n rhoi gwybodaeth am sut i gael gafael arno.

Mae'r canllawiau diweddaraf sy'n ymwneud â thai yn cael eu cyhoeddi yma:

<https://llyw.cymru/tai-coronafeirws>

ii. Defnyddio'r canllaw hwn

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn denant yn y sector cymdeithasol neu'r sector preifat, gallai'r canlynol fod yn ddefnyddiol:

- Rydych yn debygol o fod yn denant yn y sector tai cymdeithasol os ydych yn rhentu eich llety yn uniongyrchol drwy'r cynghor neu drwy gymdeithas dai.
- Rydych yn debygol o fod yn denant yn y sector tai preifat os ydych yn rhentu eich llety drwy landlord yn uniongyrchol heb fynd drwy eich cynghor lleol, neu drwy asiant rheoli/gosod ar ran eich landlord.

Os nad ydych yn siŵr pa un sy'n berthnasol i chi ac angen help i gael gwybod hyn, neu os ydych chi angen help i ddefnyddio'r ddogfen ganllaw hon, cysylltwch â:

Cynghor ar Bopeth: <https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/about-us/contact-us/contact-us/contact-us/>

Advicelink Cymru: 03444 772 020

(mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 9am-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac maent fel arfer yn brysurach ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd. Nid ydynt ar agor yn ystod gwyliau cyhoeddus)

Gwasanaeth cyfnewid testun: 03444 111 445

Shelter Cymru: <https://sheltercymru.org.uk/cy/cysylltwch-a-ni/>

Cyngor/cymorth gyda thai a chyngor arbenigol ar ddyledion: 08000 495 495 (mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 9.30am a 4.00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener)

Mae'n bwysig eich bod yn gwybod, gan fod gwahanol fathau o gymorth ar gael, gan ddibynnu a ydych yn denant yn y sector cymdeithasol ynteu'n denant yn y sector preifat. Cyn pob adran yn y canllaw, byddwch yn gallu gweld, mewn cromfachau, pa sector y mae'r cymorth yn cyfeirio ato, naill ai:

(Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol yn unig)

(Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector preifat yn unig)

(Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat)

Rydym wedi nodi nifer o ddolenni gwe drwy gydol y ddogfen hon. Mae'r rhain naill ai'n cael eu darparu fel dolen uniongyrchol, er enghraifft:

<https://gov.wales/>

Neu

Maent wedi cael eu nodi fel dolen drwy'r gair 'yma'. Er enghraifft:

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth [yma](#).

I gael mynediad at y mathau hyn o ddolenni, bydd angen i chi hofran gyda'ch llygoden dros y gair mewn [glas llachar](#), pwysu'r botwm Ctrl ar eich bysellfwrdd, ac wrth ddal y botwm Ctrl i lawr, cliciwch y botwm chwith ar eich llygoden. Bydd hyn yn agor y dudalen we ar eich cyfrifiadur, neu ddyfais sydd wedi'i chysylltu â'r rhyngwyd.

Os oes gennych chi ffrindiau a/neu deulu y gallai'r canllaw hwn fod yn ddefnyddiol iddynt, ond nad oes ganddynt ffordd o ddefnyddio dyfais a/neu'r sgiliau i gael mynediad iddi drwy'r rhyngwyd, mae croeso i chi rannu'r wybodaeth sydd yn y canllaw hwn â nhw er mwyn iddyn nhw hefyd gael budd ohono.

Roedd yr wybodaeth a nodwyd yn y ddogfen ganllaw hon yn gywir pan gafodd ei chyhoeddi. Byddwn yn parhau i ddiweddarau'r ddogfen ganllaw drwy gydol yr achosion o Covid-19, ond efallai na fydd yn gywir ar yr adeg y byddwch yn ei darllen. Felly, er mwyn osgoi cael eich siomi, dylech bob amser edrych ar y meini prawf cymhwysedd ar gyfer unrhyw raglen gymorth cyn gwneud cais rhag ofn y byddan nhw wedi newid. Ni ellir ein dal ni'n gyfrifol.

iii. Cadw'n ddiogel drwy Covid-19

Ewch i [Coronafeirws \(COVID-19\): beth mae angen i chi ei wneud](#) ar GOV.UK i gael cyhoeddiadau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

- [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)
- [Coronafeirws Llywodraeth Cymru](#)
- [Gwiriwr symptomau Galw Iechyd Cymru.](#)

Os ystyrir eich bod yn agored iawn i niwed, byddwch wedi cael llythyr gan y GIG neu gan eich meddyg teulu. Dylech ddilyn y cyngor sydd wedi'i nodi yn y llythyr hwn. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yma:

<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/>

iv. **Osgoi sgamiau a gweithgarwch twyllodrus**

Mae troseddwy'r diegwyddor yn ecsbloetio ofnau pobl ynglŷn â Covid-19 er mwyn manteisio ar aelodau o'r cyhoedd, yn enwedig pobl hŷn a phobl fregus sydd wedi'u hynysu oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau. Mae Safonau Masnach Cenedlaethol yn rhybuddio pobl i fod yn wiliadwrus yn dilyn cynnydd mewn sgamiau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws sy'n ceisio manteisio ar bryder y cyhoedd a'r ansicrwydd ynghylch Covid-19.

Dylai aelodau'r cyhoedd anwybyddu cynhyrchion sgam, fel ychwanegion a pheccynnau gwrthfeirysau, sy'n honni yn anghywir eu bod yn gwella neu'n atal Covid-19. Mewn rhai achosion gall unigolion fod dan bwysau ar eu stepen drws eu hunain i brynu pecynnau gwrthfeirysau neu gael eu perswadio i brynu cynhyrchion sy'n cael eu hysbysebu ar eu crynodebau ar y cyfryngau cymdeithasol. Ar ben hynny, mae rhai canolfannau galwadau a oedd yn targedu defnyddwyr y DU â chynhyrchion iechyd amheus cyn hyn, bellach yn cynnig ychwanegiadau sy'n honni'n anghywir eu bod yn atal Covid-19.

Mae cymunedau hefyd yn cael eu hannog i chwilio am arwyddion o gymdogion yn cael eu targedu gan droseddwy'r ar stepen y drws. Er bod grwpiau go iawn o wirfoddolwyr yn darparu cymorth i bobl sy'n hunanyysu, rydym wedi clywed am droseddwy'r yn manteisio ar drigolion – yn aml pobl hŷn neu bobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor – drwy alw yn eu cartrefi heb wahoddiad a chynnig mynd i'r siopau ar eu rhan. Mae'r troseddwy'r yn aml yn honni eu bod yn cynrychioli elusennau i'w helpu i roi'r argraff eu bod yn gyfreithlon cyn cymryd arian y dioddefwr. Mae elusennau sy'n darparu cymorth go iawn, felly dylai pobl fod yn wiliadwrus a **gofyn am ID gan unrhyw un sy'n honni ei fod yn cynrychioli elusen.**

Mae sgamiau COVID-19 sydd wedi'u nodi yn cynnwys:

Troseddau stepen drws

- Troseddwyr sy'n targedu pobl hŷn ar eu stepen drws ac yn cynnig siopa ar eu rhan. Lladron yn cymryd yr arian a ddim yn dychwelyd.
- Gwasanaethau glanhau ar stepen drws sy'n cynnig glanhau dreifiau a drysau i ladd bacteria a helpu i atal y feirws rhag lledaenu.

Sgamiau ar-lein

- Sgamiau e-bost sy'n twyllo pobl i agor atodiadau maleisus, sy'n rhoi pobl mewn perygl o gael rhywun yn dwyn eu manylion adnabod gan roi eu gwybodaeth bersonol, cyfrineiriau, cysylltiadau a manylion banc mewn perygl. Mae rhai o'r negeseuon e-bost hyn wedi hudo pobl i glicio ar atodiadau drwy gynnig gwybodaeth am bobl yn yr ardal leol y mae coronafeirws wedi effeithio arnynt.
- Adnoddau ffug ar-lein – fel Mapiau Coronafeirws ffug – sy'n darparu maleiswedd fel AZORult Trojan, rhaglen dwyn gwybodaeth sy'n gallu ymdreiddio i amrywiaeth o ddata sensitif. Un enghraifft amlwg sydd wedi'i defnyddio mewn maleiswedd yw '*corona-virus-map[dot]com*'.

Sgamiau ad-dalu

- Cwmnïau sy'n cynnig ad-daliadau gwyliau ffug i unigolion sydd wedi cael eu gorfodi i ganslo eu triapiau. Dylai pobl sy'n ceisio sicrhau ad-daliadau hefyd fod yn wylidwrus o wefannau ffug sydd wedi'u sefydlu i hawlio ad-daliadau gwyliau.

Nwyddau ffug

- Mae glanhawyr ffug, mygydau wyneb a phecynnau swabio Covid19 yn cael eu gwerthu ar-lein ac o ddrws i ddrws. Gall y cynhyrchion hyn yn aml fod yn beryglus ac yn anniogel. Ceir adroddiadau o rai glanhawyr llaw niweidiol posibl sy'n cynnwys glutaral (neu glutaraldehyde), a gafodd ei wahardd rhag cael ei ddefnyddio gan bobl yn 2014.

Sgamiau dros y ffôn

- Wrth i fwy o bobl hunanynysu gartref, mae mwy o risg y bydd sgamiau dros y ffôn yn cynyddu hefyd, gan gynnwys troseddwyr sy'n honni mai nhw yw eich banc, eich benthyciwr morgais neu'ch cwmni cyfleustodau.

Sgamiau rhoi arian

- Cafwyd adroddiadau o ladron yn gofyn am arian gan gwsmeriaid yn honni eu bod yn casglu rhoddion ar gyfer 'brechlyn' COVID-19.

Benthycwyr arian didrwydded

Disgwylir y bydd benthycwyr arian anghyfreithlon yn manteisio ar galedi ariannol pobl, gan fenthycu arian iddynt cyn codi cyfraddau llog a ffioedd afresymol drwy fygythiadau a thrais.¹

Mae pobl yn cael eu hannog i amddiffyn eu cymdogion drwy ymuno â **Friends Against Scams**, sy'n darparu hyfforddiant ar-lein am ddim i rymuso pobl i sefyll yn gadarn yn erbyn sgamiau. I gwblhau'r modiwlau ar-lein ewch i:

www.friendsagainstscams.org.uk.

Mae cyngor diweddaraf y Safonau Masnach ar sut i amddiffyn eich hun rhag sgamiau a gweithgarwch twyllodrus drwy Covid-19 i'w weld yma:

<https://www.friendsagainstscams.org.uk/shopimages/coronavirus.png>

Am ragor o gyngor ar sgamiau, ffoniwch:

Advicelink Cymru - i siarad â chynghorydd, ffoniwch 03444 77 20 20, neu i siarad â chynghorydd ar-lein, cliciwch [yma](#)

Action Fraud – 0300 123 2040

Gallwch hefyd roi gwybod am dwyll ar-lein: <https://www.actionfraud.police.uk/>

Cysylltwch â'ch banc ar unwaith os ydych chi'n credu eich bod wedi cael eich twyllo.

¹ Cyfeiriwyd at adran iv o <https://www.nationaltradingstandards.uk/news/beware-of-covid19-scams/>

2. Y cymorth sydd ar gael drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

- i. **Credyd Cynhwysol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Newydd, Lwfans Ceisio Gwaith Newydd** (*Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat*)

P'un ai a ydych chi'n ddi-waith, yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth drwy Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU a/neu Gyllid a Thollau ei Mawrhydi (CTHEM). Bydd y swm y byddwch yn gymwys i'w gael yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol ac ar eich cartref. Gallwch ddefnyddio cyfrifiannell budd-daliadau ar-lein i'ch helpu i ddeall yr hyn y gallech ei gael. Gellir gweld enghreifftiau o gyfrifiannellau budd-daliadau yma:

<https://www.gov.uk/benefits-calculators>

Credyd Cynhwysol

P'un ai a ydych wedi colli eich swydd yn ddiweddar, yn gweithio llai o oriau neu ar gontract dim oriau, yn colli incwm oherwydd eich bod ond yn derbyn 80% o'ch cyflog drwy'r Cynllun Cadw Swyddi (tudalen 15) neu'n cymryd absenoldeb di-dâl i ofalu am eich plentyn/plant o ganlyniad i gau ysgol, efallai y byddwch yn gymwys i gael y Credyd Cynhwysol. Byddai hyn yn golygu y byddech mewn gwell sefyllfa i barhau i dalu eich rhent a'ch biliau, ac atal ôl-ddyledion rhent a biliau rhag cronni drwy'r achosion o Covid-19.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Credyd Cynhwysol yma:

<https://www.gov.uk/universal-credit>

Cymhwysedd

Efallai y byddwch yn gallu cael Credyd Cynhwysol os ydych yn ddi-waith, yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig:

- a'ch bod ar incwm isel neu'n ddi-waith;
- a'ch bod yn 18 oed neu'n hŷn (mae rhai eithriadau os ydych chi'n 16 i 17 oed);
- a'ch bod chi (neu eich partner) dan [oedran Pensiwn y Wladwriaeth](#);
- bod gennych chi a'ch partner £16,000 neu lai o gynilion rhyngoch chi (bydd y swm yr ydych yn gymwys i'w gael yn llai os oes gennych gynilion o rhwng £6,000 ac £16,000);
- a'ch bod yn byw yn y DU

Mae Llywodraeth y DU wedi cynyddu'r lwfans safonol mewn Credyd Cynhwysol a'r elfen sylfaenol yn y Credyd Treth Gwaith am 1 flwyddyn. Bydd y swm wythnosol ar

gyfer y ddau yn cynyddu £20 yr wythnos ar ben yr uwchraddio blynyddol sydd wedi'i gynllunio. Bydd hyn yn berthnasol i hawl wyr Credyd Cynhwysol newydd a phresennol ac i hawl wyr presennol y Credyd Treth Gwaith. Er enghraifft, mae hyn yn golygu y bydd y lwfans safonol ar gyfer un hawlydd (25 oed a throsodd) y Credyd Cynhwysol yn cynyddu o £317.82 y mis i £409.89².

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y cyfraddau lwfans safonol yma:

<https://www.gov.uk/universal-credit/what-youll-get>

Er mwyn cefnogi pobl hunangyflogedig i ddelio ag effaith Covid-19, a chaniatáu i'r mesurau hunanynysu a chadw pellter cymdeithasol gael eu dilyn, bydd gofynion y Llawr Isafswm Incwm yn cael eu llacio dros dro. Bydd y newid hwn yn berthnasol i holl hawl wyr y Credyd Cynhwysol newydd a phresennol y mae Covid-19 neu hunanynysu yn effeithio arnynt yn ôl cyngor y Llywodraeth. Bydd hyn yn para gydol yr achos.

Sut mae gwneud cais

Oherwydd rheolau cadw pellter cymdeithasol, mae holl weithgarwch y Ganolfan Waith wedi symud ar-lein neu dros y ffôn.

I wneud cais, bydd angen i chi wneud hawliad ar-lein drwy gyfrifiadur, ffôn clyfar neu ddyfais tabled gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<https://www.gov.uk/universal-credit/how-to-claim>

Os nad oes gennych fodd o ddefnyddio TG neu'r rhyngwyd, gallwch gysylltu â llinell hawlio Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau ar y ffôn:

- 0800 328 1744 (Cymraeg)
- 0800 328 5644 (Saesneg)
- 0800 328 1344 (ffôn testun)

Mae'r llinellau ffôn ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9:30yb a 3yp.

Beth fydd angen i chi ei gael yn barod cyn dechrau ar y broses wneud cais

Cyn i chi ddechrau'r broses wneud cais, mae'n syniad da i chi gael yr wybodaeth yn barod. Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth gywir pan fyddwch yn gwneud cais, gallai effeithio ar ba mor gyflym y gallwch gael eich taliad cyntaf neu faint y byddwch yn ei gael.

² Daw'r gwerthoedd hyn o : <https://www.understandinguniversalcredit.gov.uk/coronavirus/>

Bydd angen y canlynol arnoch:

- Manylion eich cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd (ffoniwch y llinell gymorth Credyd Cynhwysol uchod os nad oes gennych un o'r rhain);
- Cyfeiriad e-bost (os nad oes gennych un, bydd angen i chi ddewis darparwr e-bost a sefydlu cyfrif. Mae sawl darparwr e-bost ar gael, mae enghreifftiau'n cynnwys: [Gmail](#) neu [Yahoo](#));
- Gwybodaeth am eich tŷ, er enghraifft faint o rent rydych chi'n ei dalu ac unrhyw dâl/taliadau gwasanaeth cysylltiedig;
- Manylion eich incwm, er enghraifft slipiau cyflog;
- Manylion cynilion ac unrhyw fuddsoddiadau, fel cyfranddaliadau neu eiddo yr ydych yn ei rentu;
- Manylion faint rydych chi'n ei dalu am ofal plant os ydych chi'n gwneud cais am gymorth gyda chostau gofal plant.

Rhaid i chi hefyd gadarnhau pwy ydych chi ar-lein. Bydd angen prawf adnabod arnoch, er enghraifft:

- trwydded yrru
- pasbort
- cerdyn debyd neu gredyd

Os oes angen help arnoch i wneud eich hawliad, ffoniwch linell gymorth y Credyd Cynhwysol, neu cysylltwch â Chyngor ar Bopeth drwy ei wefan:

<https://www.citizensadvice.org.uk/helptoclaim/>

Nodwch: Mae'r Budd-dal Tai bellach wedi'i ddisodli gan y Credyd Cynhwysol. Os oes gennych hawl i gael Credyd Cynhwysol, caiff eich hawliad ei dalu mewn un taliad – gan gynnwys y gyfran cyfraniad at dŷ (oni bai y cytunir fel arall gyda'ch hyfforddwr gwaith Credyd Cynhwysol). Bydd angen i chi dalu eich rhent yn uniongyrchol i'ch landlord gan na fydd hyn yn digwydd fel arall (oni bai bod cytundeb talu arall wedi'i lunio rhwng eich hyfforddwr gwaith Credyd Cynhwysol a'ch landlord).

Ni chaiff Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP), Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) a Lwfans Gofalwr eu cynnwys fel rhan o'r Credyd Cynhwysol. Ni fydd yn rhaid i chi gael asesiad meddygol na llenwi ffurflen adolygu ar gyfer PIP neu DLA, tan 17 Mehefin oherwydd Covid-19. Mae'n ddigon posibl y caiff y dyddiad hwn ei ymestyn.

Mae'n bosibl y bydd rhai pobl sydd wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Newydd neu Lwfans Ceisio Gwaith Newydd (ewch i dudalen 13).

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Newydd (LCCh)

Os ydych yn sâl neu os oes gennych gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eich gallu i weithio, efallai y byddwch yn gallu cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh) Newydd.

Mae'r LCCh Newydd yn daliad bob pythefnos y gellir ei hawlio ar ei ben ei hun neu ar yr un pryd â'r Credyd Cynhwysol (CC).

Mae'r LCCh Newydd yn fudd-dal ar sail cyfraniadau. Fel arfer, mae hyn yn golygu y byddwch efallai'n gallu ei gael os ydych wedi talu neu wedi cael eich credydu gyda digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y 2 flynedd dreth lawn cyn y flwyddyn rydych chi'n hawlio ar ei chyfer.

Ni fydd eich cynilion (na rhai eich partner) yn effeithio ar faint o LCCh Newydd rydych chi'n ei dalu. Os yw eich partner yn gweithio, nid yw'n effeithio ar eich hawliad.

Ni chaiff y rhan fwyaf o incwm ei ystyried (ond gall pensiwn personol effeithio ar y swm y gallech ei gael).

Tra byddwch yn cael yr LCCh Newydd byddwch yn ennill credydau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1, a all helpu tuag at eich Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau ar sail cyfraniadau eraill yn y dyfodol.

Cofiwch ei bod yn cymryd o leiaf 14 diwrnod i chi gael taliad LCCh.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr LCCh Newydd yma:

<https://www.gov.uk/guidance/new-style-employment-and-support-allowance>

Cymhwysedd

I gael yr LCCh Newydd mae angen i chi:

- fod wedi gweithio fel cyflogai neu fod wedi bod yn hunangyflogedig;
- fod wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y 2 i 3 blynedd diwethaf - mae [credydau Yswiriant Gwladol](#) hefyd yn cyfrif.

Chewch chi ddim yr LCCh Newydd os:

- ydych chi'n cael y [premiwm anabledd difrifol](#), neu fod gennych hawl i'w gael
- os cawsoch y premiwm anabledd difrifol yn ystod y mis diwethaf neu os oedd gennych hawl i'w gael, a'ch bod yn dal yn gymwys i'w gael

Ni chewch yr LCCh Newydd os ydych chi'n cael Tâl Salwch Statudol (SSP) gan gyflogwr. Ond gallwch wneud cais am LCCh Newydd hyd at 3 mis cyn i'ch SSP ddod i ben.

Gallech gael Credyd Cynhwysol ar yr un pryd neu yn lle'r LCCh Newydd. Gall y Credyd Cynhwysol helpu, er enghraifft, gyda'ch costau tai a gofal plant (edrychwch ar dudalen 9 ymlaen).

Efallai y bydd y canlynol yn ddefnyddiol i chi, o ran deall y gwahaniaeth rhwng yr LCCh Newydd a'r Credyd Cynhwysol. Mae'r ddogfen wedi'i bwriadu i gael ei hargraffu, sgroliwch i lawr a/neu gylchdroi yn ôl yr angen i weld yr holl wybodaeth.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/803343/print-and-fold-new-style-esa-claimant_guide-v7.pdf

Sut mae gwneud cais

Mae yna wahanol ffyrdd o wneud cais yn dibynnu os ydych chi'n cael Credyd Cynhwysol ai peidio.

Os ydych eisoed yn cael Credyd Cynhwysol, siaradwch â'ch hyfforddwr gwaith neu'ch rheolwr achos drwy eich cyfnodolyn ar-lein ynglŷn â gwneud cais. Gallwch wneud hyn drwy [fewngofnodi i'ch cyfrif Credyd Cynhwysol](#).

Os nad ydych eisoed yn cael Credyd Cynhwysol, bydd angen i chi ffonio llinell gymorth y Credyd Cynhwysol i drefnu hawliad newydd

- 0800 328 1744 (Cymraeg) Dewiswch rif 2
- 0800 328 5644 (Saesneg) Dewiswch rif 2
- 0800 328 1344 (ffôn testun) Dewiswch rif 2

Mae'r llinellau ffôn ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 08.00yb a 6.00 yp.

Lwfans Ceisio Gwaith Newydd (LCG)

Efallai y byddwch yn gymwys i gael Lwfans Ceisio Gwaith Newydd i'ch helpu pan fyddwch yn chwilio am waith.

Os ydych yn ddi-waith neu'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos, efallai y byddwch yn gallu cael y Lwfans Ceisio Gwaith Newydd (LCG).

Mae'r LCG Newydd yn daliad bob pythefnos y gellir ei hawlio ar ei ben ei hun neu ar yr un pryd â'r [Credyd Cynhwysol](#).

Mae'r LCG Newydd yn fudd-dal sy'n seiliedig ar gyfraniadau. Fel arfer, mae hyn yn golygu y gallech ei gael os ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol

a/neu wedi cael digon o greydau yn y 2 flynedd dreth lawn cyn y flwyddyn y byddwch yn hawlio ar ei chyfer.

Os ydych chi'n gymwys, gallwch gael LCG Newydd, am hyd at 182 diwrnod. Ar ôl hyn, bydd eich hyfforddwr gwaith yn siarad â chi am eich dewisiadau.

Os ydych chi'n gymwys ar gyfer yr LCG Newydd a'r Credyd Cynhwysol, bydd unrhyw LCG Newydd y byddwch yn ei gael yn cael ei ystyried fel incwm ar gyfer y Credyd Cynhwysol.

Nid yw eich cynilion a'ch cyfalaf (neu gynilion, cyfalaf ac incwm eich partner) yn cael eu hystyried wrth hawlio'r LCG Newydd. Fodd bynnag, gall eich enillion ac unrhyw daliad yr ydych yn ei gael o gronfa bensiwneffeithio ar y swm y gallech ei gael.

Tra byddwch yn cael yr LCG Newydd, byddwch yn cael credydau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1, a all helpu tuag at eich Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau ar sail cyfraniadau eraill yn y dyfodol. Mae'n daliad rheolaidd bob pythefnos.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr LCG Newydd yma:

<https://www.gov.uk/guidance/new-style-jobseekers-allowance>

Cymhwysedd

I fod yn gymwys i gael LCG Newydd, bydd angen i chi fod wedi gweithio fel cyflogai ac wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1, fel arfer yn y 2 i 3 blynedd diwethaf. Gall [credydau Yswiriant Gwladol](#) gyfrif hefyd.

Ni fyddwch yn gymwys os oeddech yn hunangyflogedig a dim ond wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2, oni bai eich bod yn gweithio fel pysgotwr cyfran neu weithiwr datblygu gwirfoddolwyr.

Bydd angen i chi hefyd:

- fod yn 18 oed neu hŷn
- fod dan [oedran Pensiwn y Wladwriaeth](#)
- beidio â bod mewn addysg amser llawn
- fod ar gael i weithio
- beidio â bod yn gweithio ar hyn o bryd, neu'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd
- beidio â bod â salwch neu anabledd sy'n eich atal rhag gweithio
- fod yn byw yng Nghymru, yr Alban neu Loegr
- fod â hawl i weithio yn y DU

Bydd angen i chi hefyd ddangos eich bod yn chwilio am waith er mwyn parhau i gael taliadau.

Gallwch gael LCG Newydd am hyd at 182 diwrnod (tua 6 mis). Ar ôl hyn gallwch siarad â'ch hyfforddwr gwaith am eich dewisiadau.

Edrychwch i weld a ydych [yn gymwys ar gyfer y Credyd Cynhwysol](#). Os ydych chi, gallech gael Credyd Cynhwysol ar yr un pryd **neu** yn lle'r LCG Newydd.

Efallai y bydd y canlynol yn ddefnyddiol i chi, o ran deall y gwahaniaeth rhwng y LCCh Newydd a'r Credyd Cynhwysol. Mae'r ddogfen wedi'i bwriadu i gael ei hargraffu, sgroliwch i lawr a/neu gylchdroi yn ôl yr angen i weld yr holl wybodaeth.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/803343/print-and-fold-new-style-esa-claimant_guide-v7.pdf

Sut mae gwneud cais

Bydd angen i chi wneud cais ar-lein, sy'n cynnwys mynd drwy'r meini prawf cymhwysedd yma:

<https://www.apply-for-new-style-isa.service.gov.uk/?lang=cy>

Os nad ydych yn gallu gwneud cais ar-lein, gallwch wneud cais dros y ffôn, drwy ffonio:

Y Ganolfan Byd Gwaith

Rhif ffôn: 0800 055 6688

Ffôn testun: 0800 023 4888

Cyfnewid testun (os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn): 18001 yna 0800 055 6688

Cymraeg: 0800 012 1888

Mae'r llinellau ffôn ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8yb i 6yp

ii. Tâl Salwch Statudol (SSP) (Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat)

Os ydych yn gyflogedig ac yn sâl neu'n gorfod hunanyysu oherwydd Covid-19 naill ai'n uniongyrchol, neu gan fod aelod o'ch cartref yn hunanyysu, efallai y byddwch yn gymwys i hawlio SSP, a fydd yn eich helpu i dalu eich rhent a'ch biliau.

Mae eich hawliau i'r SSP yn dibynnu ar eich statws cyflogaeth a'ch enillion. Os ydych yn gyflogedig ac yn hunanyysu byddwch yn cael yr SSP drwy eich cyflogwr. Nid oes yn rhaid i'ch cyflogwr dalu mwy na chyfradd safonol yr SSP i chi, ond gall ddewis gwneud hynny. Mae gan rai cyflogwyr gynlluniau tâl salwch cytundebol mwy hael. Mae'n werth darllen eich contract a/neu lawlyfr staff yn uniongyrchol gyda'ch cyflogwr,

neu eich cynrychiolydd Undeb os ydych chi'n rhan o Undeb, i weld beth y bydd gennych hawl iddo.

Cyfraddau safonol yr SSP

Os ydych chi'n gyflogai ac yn ennill o leiaf £120 yr wythnos, byddwch yn gallu cael £95.85 yr wythnos am hyd at 28 wythnos. Fel arfer, rhaid i chi fod i ffwrdd o'r gwaith am o leiaf 4 diwrnod yn olynol, ond yn ddiweddar mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr SSP yn cael ei dalu o'r **diwrnod cyntaf** y byddwch yn absennol os yw'n gysylltiedig â Covid-19. Mae'n bwysig rhoi gwybod i'ch cyflogwr eich bod yn sâl oherwydd Covid-19, er mwyn sicrhau eich bod yn cael y taliad cywir.

Os ydych chi'n gyflogedig ac yn cael cyfraddau safonol yr SSP, heb unrhyw gyfraniad pellach gan eich cyflogwr, efallai y byddwch yn cael trafferth talu eich rhent a biliau. Efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (gweler Rhan 2.i. o'r canllaw hwn).

Os ydych chi'n gyflogedig ond bod eich enillion yn rhy isel i hawlio SSP, efallai y byddwch yn gallu hawlio Credyd Cynhwysol i'ch helpu i fforddio talu eich rhent a'ch biliau. Bydd angen i chi wneud hawliad ar-lein (gweler Rhan 2.i. o'r canllaw hwn).

Os ydych chi'n hunangyflogedig ac yn sâl neu'n hunanynysu o ganlyniad i Covid-19, **ni fyddwch** yn gymwys i gael SSP, ond efallai y byddwch yn gallu hawlio'r Credyd Cynhwysol neu'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Newydd (LCCh). Bydd yr LCCh yn awr yn cael ei dalu o ddiwrnod 1 salwch, yn hytrach na diwrnod 8 os ydych yn sâl neu'n cael eich cynghori i aros gartref. Bydd angen i chi wneud hawliad yn dilyn y canllawiau a nodir yn rhan 2.i. o'r canllaw hwn.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr SSP yma:

<https://www.gov.uk/statutory-sick-pay/eligibility>

iii. Cynllun cadw swyddi *(Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat)*

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynllun Cadw Swyddi Covid-19 newydd a fydd yn berthnasol i 'weithwyr ar seibiant'.

Mae gweithiwr ar seibiant yn golygu gweithwyr sy'n cael eu cadw ar gyflogres cyflogwr, yn hytrach na chael eu diswyddo. Bydd y cynllun yn rhedeg am o leiaf 3 mis o 1 Mawrth 2020, ond caiff ei ymestyn os bydd angen. Os bydd eich cyflogwr yn gofyn i chi fod ar seibiant drwy gynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU, bydd yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi gytuno i'r telerau. Byddwch yn cael y pecyn cynllun safonol o leiaf.

Bydd eich cyflogwr:

- yn talu o leiaf 80% o'ch cyflogau misol rheolaidd i chi, hyd at uchafswm o £2,500, fel eich cyflog;
- yn gallu hawlio am o leiaf 3 wythnos yn olynol ac am hyd at 3 mis - ond gellir ymestyn hyn;
- yn gallu dewis talu mwy na'r grant - ond nid oes rhaid iddo wneud hynny;
- yn methu dewis talu llai na'r grant.

Byddwch yn dal i dalu treth incwm, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr ac unrhyw ddiidyniadau eraill (fel cyfraniadau pensiwn) o'ch cyflog.

Sut y cyfrifir eich enillion misol

Os ydych chi wedi bod yn gyflogedig (neu'n cael eich cyflogi gan fusnes cyflogi yn achos gweithwyr asiantaeth) am flwyddyn lawn, bydd cyflogwyr yn hawlio am yr uchaf o naill ai:

- y swm a eniloch yn yr un mis y llynedd; neu
- gyfartaledd eich enillion misol o'r flwyddyn ddiwethaf

Os ydych chi wedi cael eich cyflogi am lai na blwyddyn, bydd cyflogwyr yn hawlio gyfartaledd eich cyflog misol rheolaidd ers i chi ddechrau gweithio. Mae'r un trefniadau'n berthnasol os bydd eich cyflog misol yn amrywio, er enghraifft os ydych chi ar contract dim oriau.

Os gwnaethoch chi ddechrau gweithio ym mis Chwefror 2020, bydd eich cyflogwr yn talu eich enillion o'r mis hwnnw i chi ar sail pro rata.

Bydd y grant a delir i'ch cyflogwr yn cael ei gyfrifo ar sail eich tâl rheolaidd, cytundebol, megis cyflogau, y comisiwn gorfodol a goramser yn y gorffennol. Ni fydd y cyfrifiad yn cynnwys taliadau dewisol comisiwn (gan gynnwys tipiau) neu daliadau bonws, taliadau nad ydynt yn arian parod neu fuddion mewn nwyddau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

<https://www.gov.uk/guidance/check-if-you-could-be-covered-by-the-coronavirus-job-retention-scheme#how-much-youll-get>

Os bydd eich cyflog yn gostwng o ganlyniad i'r newidiadau hyn, a'ch bod yn cael trafferth talu eich rhent a/neu filiau, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth drwy Gredyd Cynhwysol. Darllenwch Ran 2.i. o'r canllaw hwn.

iv. Cynllun i'r hunangyflogedig (*Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat*)

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynllun cymorth incwm newydd ar gyfer pobl hunangyflogedig, a bydd y taliadau'n cael eu rheoli gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi. Os ydych chi'n hunangyflogedig neu'n aelod o bartneriaeth ac wedi colli incwm oherwydd Covid-19, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais am grant.

Os ydych yn gymwys, bydd y cynllun yn caniatáu i chi gael grant trethadwy gwerth 80% o'ch elw masnachu hyd at uchafswm o £2,500 y mis am 3 mis.

Cymhwysedd

Gallwch wneud cais os ydych chi'n unigolyn hunangyflogedig neu'n aelod o bartneriaeth a'ch bod chi:

- wedi cyflwyno eich ffurflen dreth Hunanasesu treth incwm ar gyfer y flwyddyn dreth 2018-19;
- wedi masnachu yn y flwyddyn dreth 2019-20;
- yn masnachu pan fyddwch chi'n gwneud cais, neu y byddech chi heblaw am Covid-19;
- yn bwriadu parhau i fasnachu yn y flwyddyn dreth 2020-21;
- wedi colli elw masnachu/partneriaeth masnachu oherwydd Covid-19

Rhaid i'ch elw masnachu hunangyflogedig hefyd fod yn llai na £50,000 ac mae'n rhaid i fwy na hanner eich incwm ddod o hunangyflogaeth. Penderfynir ar hyn ar y sail bod yn rhaid i un o'r amodau canlynol fod yn wir:

- bod eich elw masnachu/elw masnachu partneriaeth yn 2018-19 yn llai na £50,000 a bod yr elw hwn yn cyfrif am dros hanner cyfanswm eich incwm trethadwy;
- bod ag elw masnachu cyfartalog o lai na £50,000 yn 2016-17, 2017-18 a 2018-19, a bod yr elw hwn yn cyfrif am dros hanner eich incwm trethadwy cyfartalog yn yr un cyfnod.

Os gwnaethoch chi ddechrau masnachu rhwng 2016-19, dim ond y blynyddoedd hynny y gwnaethoch chi ffeilio ffurflen dreth Hunanasesu ar eu cyfer y bydd CThEM yn eu defnyddio.

Bydd CThEM yn defnyddio data ar ffurflenni 2018-19 a gyflwynwyd eisoes, er mwyn nodi'r rhai sy'n gymwys a bydd yn asesu risg unrhyw ffurflenni hwyr a gafodd eu ffeilio cyn y dyddiad cau ar 23 Ebrill 2020 yn y ffordd arferol.

Os asesir eich bod yn gymwys, byddwch yn cael grant trethadwy a fydd yn 80% o'r elw cyfartalog o'r blynyddoedd treth (lle bo'n berthnasol):

- 2016 i 2017
- 2017 i 2018
- 2018 i 2019

I gyfrifo'r cyfartaledd, bydd CThEM yn ychwanegu cyfanswm yr elw masnachu ar gyfer y 3 blynedd treth (lle bo'n berthnasol) ac yna'n rhannu gyda 3 (lle bo'n berthnasol) ac yn defnyddio hyn i gyfrifo swm misol.

Bydd y grant yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc, mewn un rhandaliad. Bydd hyn yn digwydd o fis Mehefin 2020 ymlaen.

Os mai dim ond yn 2019-2020 y gwnaethoch ddechrau eich busnes, bydd angen i chi wneud cais am Gredyd Cynhwysol (gweler Rhan 2.i. o'r canllaw hwn). Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn awgrymu eich bod yn siarad â'ch cyfrifydd neu'ch cynghorydd ariannol os yw hyn yn berthnasol i chi, i weld pa gymorth pellach allai fod ar gael i chi o ran rhoi'r gorau i hawliadau TAW fel y cyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU.

Sut mae gwneud cais

Nid oes angen i chi wneud cais am y cynllun hwn eich hun, bydd CThEM yn cysylltu â chi os ydych chi'n gymwys. Unwaith y bydd CThEM yn cysylltu â chi, dim ond drwy [gov.uk](https://www.gov.uk) y byddwch yn cael mynediad i'r cynllun hwn.

Bydd CThEM yn gwneud y taliad yn awtomatig **ond** mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno eich ffurflen dreth i CThEM ar gyfer 2018-2019 erbyn **23 Ebrill 2020**.

Os bydd rhywun yn anfon neges destun, eich ffonio neu'n anfon e-bost atoch yn honni ei fod oddi wrth CThEM, gan ddweud eich bod yn gallu hawlio cymorth ariannol neu fod ad-daliad treth yn ddyledus i chi, ac yn gofyn i chi glicio ar ddolen neu'n gofyn i chi roi gwybodaeth iddynt fel eich enw, cerdyn credyd neu fanylion banc - mae'n sgam.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn:

<https://www.gov.uk/guidance/claim-a-grant-through-the-coronavirus-covid-19-self-employment-income-support-scheme>

Os ydych chi'n hunangyflogedig ac yn cael trafferth talu eich rhent a'ch biliau, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (darllenwch Ran 2.i. o'r canllaw hwn).

Nodwch os ydych yn gymwys ar gyfer y cynllun hunangyflogedig. Bydd angen i chi drafod eich amgylchiadau unigol â'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn penderfynu a fydd unrhyw incwm a gaiff ei dalu ar 80% ym mis Mehefin 2020 yn effeithio ar eich gallu i hawlio cymorth hyd at y pwynt hwnnw.

v. Lwfans Tai Lleol (LHA) (*Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector preifat yn unig*)

Efallai y cewch help gyda'ch rhent i gyd neu ran ohono, os ydych yn rhentu'n breifat. Gallwch wneud cais am help tuag at eich costau tai fel rhan o'r broses Credyd Cynhwysol (darllenwch Ran 2.i. o'r canllaw hwn). Mae'r Budd-dal Tai bellach wedi'i ddisodli gan elfen cyfraniad at dŷ hawliad Credyd Cynhwysol, ond os ydych o oedran pensiwn rydych yn dal yn debygol o hawlio Budd-dal Tai.

Os ydych yn gymwys i gael cymorth gyda chostau tai, byddwch yn cael cyfraniad ariannol tuag at eich rhent yn seiliedig ar Lwfans Tai Lleol (LHA). Mae'r cyfraniad y

gallech ei gael yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw, a chyfraddau'r farchnad rentu yn yr ardal.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr LHA yma:

<https://llyw.cymru/lwfans-tai-lleol>

vi. Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai (DHP) (Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat)

Gall taliadau Disgresiwn at Gostau Tai (DHP) gynnig arian ychwanegol pan fydd eich cyngor lleol yn penderfynu bod angen help ychwanegol arnoch i dalu'ch costau tai ar ben yr hyn rydych eisoes yn ei gael drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Cymhwysedd

Bydd eich cyngor lleol yn edrych ar eich amgylchiadau i weld a ydych yn gymwys i gael DHP. Bydd yn penderfynu a ddylid rhoi DHP i chi, faint y byddwch yn ei gael ac am ba hyd y byddwch yn cael y taliad.

I gael DHP, bydd angen i chi naill ai fod eisoes yn cael yr hen Fudd-dal Tai neu'r elfen cyfraniad at dŷ drwy'r Credyd Cynhwysol.

Does dim rhaid i'ch cyngor lleol roi DHP i chi - mae'n dibynnu ar eich amgylchiadau.

Os yw'r cyngor yn penderfynu rhoi DHP i chi, bydd yn ysgrifennu atoch i ddweud:

- faint fyddwch chi'n ei gael
- pryd bydd y DHP yn dod i ben

Os byddwch dal angen DHP ar ôl iddo ddod i ben, gallwch wneud cais eto.

Sut mae gwneud cais

Cysylltwch â'ch cyngor lleol a holi sut mae gwneud cais am DHP. Efallai y bydd am i chi wneud cais dros y ffôn neu ar-lein. Gallwch gael gwybod sut i gysylltu â'ch cyngor lleol drwy nodi eich cod post [yma](#) a dod o hyd i'w fanylion cyswllt ar ei wefan.

Mae gan Shelter Cymru hefyd adnodd cymorth ar-lein i helpu i wneud cais am DHP. Bydd angen i chi nodi eich cod post a llwytho'r ffurflen gais i lawr drwy'r ddolen ganlynol:

<https://sheltercymru.org.uk/get-advice/paying-for-housing/housing-benefit-and-council-tax-reduction/discretionary-housing-payments/>

Pan fyddwch chi'n gwneud cais, byddwch mor glir ag y gallwch pan fyddwch chi'n esbonio pam mae angen DHP arnoch. Er enghraifft, dylech egluro:

- pam na allwch fforddio talu'r rhent
- pam na allwch symud i rywle rhatach

- a yw'n achosi problemau i rywun rydych chi'n gofalu amdano, fel plentyn neu berthynas oedrannus
- unrhyw dystiolaeth sydd gennych, e.e. llythyr meddyg neu fanylion dyledion rydych chi'n eu talu

Dylech hefyd ddweud wrth y cyngor os ydych yn aros i'r Adran Gwaith a Phensiynau benderfynu a allwch gael cyfraniad at dŷ drwy'r Credyd Cynhwysol.

Os ydych yn cael DHP ar hyn o bryd, gall eich awdurdod lleol gytuno i'w ymestyn yn ystod achosion Covid-19, ond bydd angen i chi gysylltu ag ef i drafod a chadarnhau.

Os byddwch yn gwneud cais ar ffurflen bapur, mae'n syniad da cadw copi o'r ffurflen ar gyfer eich cofnodion.

vii. Newid mewn amgylchiadau gan gynnwys absenoldeb di-dâl, llai o oriau a chyflyrau iechyd (*Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat*)

Efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth os ydych chi wedi colli eich swydd yn ddiweddar, rydych chi'n gweithio llai o oriau ar ôl bod ar gontract dim oriau, wedi colli incwm oherwydd eich bod ond yn cael 80% o'ch cyflog drwy'r cynllun Cadw Swyddi, yn cymryd absenoldeb di-dâl i ofalu am blentyn/plant o ganlyniad i gau ysgol neu'n hunangyflogedig ac yn aros i CThEM roi gwybod i chi a ydych yn gymwys ar gyfer y cynllun Hunangyflogedig ai peidio.

Os ydych eisoes yn hawlio'r Credyd Cynhwysol, siaradwch â'ch hyfforddwr gwaith drwy eich cyfnodolyn ar-lein am sut y gall eich helpu.

Os nad ydych eisoes yn ei hawlio, efallai y byddwch yn gymwys i gael y Credyd Cynhwysol, yr LCCh Newydd, neu'r LCG Newydd (darllenwch Ran 2.i. o'r canllaw hwn).

viii. Blaenswm ad-daladwy drwy'r Credyd Cynhwysol (*Mae hyn yn gymwys i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat*)

Gall pobl sy'n gwneud cais am Credyd Cynhwysol (CC) wneud cais am **flaenswm ad-daladwy** 100% o ddiwrnod 1, drwy ofyn am hyn drwy eu cyfnodolyn ar-lein ar ôl cofrestru'n llwyddiannus neu dros y ffôn. Mae hyn yn golygu **na fydd angen i chi aros y 5 wythnos arferol** cyn cael taliad CC. Ni fydd yn rhaid i chi ymweld â'r Ganolfan Waith, gallwch wneud cais ar-lein neu os nad oes gennych fodd o ddefnyddio'r rhyngwyd gallwch ffonio llinell gymorth y Credyd Cynhwysol (darllenwch Ran 2.i. o'r canllaw hwn).

Mae'n bosibl nad eich blaenswm ad-daladwy 100% fydd y gwerth a gewch yn eich hawliad parhaus unwaith y bydd eich hawliad wedi'i ddilysu. Bydd hefyd yn amrywio o

ganlyniad i newidiadau i incwm eich cartref ac o ganlyniad i unrhyw oriau y byddwch yn eu gweithio.

Nodyn; mae'r Budd-dal Tai bellach wedi'i ddisodli gan y Credyd Cynhwysol. Os oes gennych hawl i gael Credyd Cynhwysol, bydd eich hawliad yn cael ei dalu i chi mewn un taliad – gan gynnwys y gyfran o'r cyfraniad at dŷ Yna bydd angen i chi dalu eich rhent yn uniongyrchol i'ch landlord o'ch blaenswm ad-daladwy. Ni fydd eich taliad rhent yn cael ei drosglwyddo i'ch landlord yn awtomatig oni bai eich bod wedi trefnu i hyn ddigwydd gyda'ch hyfforddwr gwaith a'ch landlord.

ix. Apelio yn erbyn penderfyniad drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (*Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat*)

Os byddwch yn gwneud cais am gymorth budd-daliadau drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac nad ydych yn cael y canlyniad yr oeddech yn ei ddisgwyl, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad.

Sut mae apelio

I wneud hyn, bydd angen i chi yn gyntaf ofyn i'r penderfyniad am eich budd-daliadau gael ei ystyried eto.

Gallwch wneud hyn os oes unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol:

- rydych chi'n meddwl bod y swyddfa sy'n delio â'ch hawliad wedi gwneud camgymeriad neu wedi methu tystiolaeth bwysig;
- rydych yn anghytuno â'r rhesymau dros y penderfyniad
- rydych am i'r penderfyniad gael ei ystyried eto

Ni ellir ailystyried rhai penderfyniadau - ond bydd yn dweud hynny ar eich llythyr penderfyniad gwreiddiol.

Cysylltwch â'r swyddfa a roddodd y penderfyniad i chi. Gallwch gysylltu â hi:

- dros y ffôn
- drwy lythyr
- ar-lein drwy [lenwi ffurflen a'i dychwelyd](#)

Mae'r manylion cyswllt ar eich llythyr penderfyniad. Yn ystod Covid-19 mae'n syniad da i gysylltu â hi dros y ffôn neu ar-lein.

Mae angen i chi ofyn am broses ailystyried gorfodol o fewn mis i'r dyddiad ar eich llythyr penderfynu. Os ydych chi'n ysgrifennu, rhaid i'r llythyr neu'r ffurflen gyrraedd erbyn hynny. Os na fyddwch wedi cael eich llythyr penderfyniad, cysylltwch â'r swyddfa lle gwnaethoch gais am y budd-dal.

Os ydych eisoes yn cael Credyd Cynhwysol gallwch [ddefnyddio eich cyfnodolyn i ofyn am broses ailystyried gorfodol](#).

Os nad ydych yn gallu defnyddio eich cyfnodolyn, gallwch ofyn am broses ailystyried gorfodol mewn unrhyw rai o'r ffyrdd canlynol:

- ysgrifennu i'r cyfeiriad ar eich llythyr penderfyniad
- [llenwi ffurflen a'i dychwelyd](#)
- Ffonio llinell gymorth y Credyd Cynhwysol (darllenwch Ran 2.i. y canllaw hwn).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

<https://www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal>

3. Cymorth sydd ar gael drwy eich cyngor lleol

(Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat)

i. Cymorth gyda'r dreth gyngor

Os ydych chi'n cael trafferth talu eich rhent, efallai y byddwch chi'n gallu gofyn i'ch cyngor am help gyda'ch treth gyngor.

Mae rhai awgrymiadau yn cynnwys:

- Gofyn i'ch cyngor lleol i wasgaru eich treth gyngor dros 12 mis yn hytrach na'r 10 arferol, os ydych chi'n dechrau cael trafferth talu - bydd hyn yn lleihau'r swm y byddwch yn ei dalu bob mis a gall eich helpu i dalu eich rhent a'ch biliau eraill. Efallai y byddwch yn gallu gofyn am batrymau talu gwahanol hefyd, ond bydd angen cytuno ar hyn gyda'ch cyngor lleol.
- Holwch i weld a ydych yn gymwys i gael eithriad, disgownt neu ostyngiad. Gofynnwch i'ch cyngor lleol a fyddai modd i chi leihau eich bil cyffredinol drwy gael disgownt ar eich treth gyngor:
 - os ydych chi'n byw ar eich pen eich hun
 - os ydych chi'n byw gyda dim ond rhywun sydd o dan 17 oed neu fyfyrwr llawn amser
 - os ydych chi'n byw gyda rhywun sydd â phroblemau iechyd meddwl
 - os ydych chi'n byw gyda rhywun sydd ag anabledd difrifol
 - os ydych chi'n ennill llai na swm penodol o arian (mae hyn yn dibynnu ble rydych chi'n byw).

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma:

<https://llyw.cymru/talu-llai-o-dreth-gyngor>

<https://llyw.cymru/disgownt-gostyngiad-treth-gyngor/gwneud-cais-am-ddisgownt-neu-ostyngiad-treth-gyngor>

<https://llyw.cymru/disgownt-gostyngiad-treth-gyngor-taflen-wybodaeth>

- Efallai y bydd eich bil yn uwch nag y dylai fod os yw eich eiddo yn y band treth gyngor anghywir. Gallwch wirio band eich treth gyngor a chwestiynu eich cyngor lleol am y gost os nad yw'n edrych yn gywir. Gallwch ddod o hyd i fand eich treth gyngor yma:

<https://www.gov.uk/council-tax-bands>

Mae'r ddolen hon yn cynnwys mwy o wybodaeth am sut y caiff eich band ei gyfrifo:

<https://www.gov.uk/guidance/understand-how-council-tax-bands-are-assessed.cy>

- Efallai y bydd modd i chi gael gostyngiad yn y dreth gyngor (CTR) os ydych ar incwm isel. Os oes gennych hawl i ostyngiad, bydd eich bil yn cael ei leihau, a bydd hynny'n ei gwneud yn fwy fforddiadwy i chi dalu eich rhent. I gael gwybod a yw hyn yn opsiwn i chi, cysylltwch â'ch cyngor lleol – gallwch ddod o hyd i'w fanylion cyswllt yma:

<https://www.gov.uk/find-local-council>

Bydd angen i chi nodi eich amgylchiadau pan fyddwch yn gofyn iddo ystyried eich cais. Gall eich cyngor lleol helpu gyda'r broses hon, ond os oes angen mwy o help arnoch, gallwch gysylltu â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol yma:

<https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/>

- Os oes gennych ôl-ddyledion yn barod, mae angen i chi weithredu'n gyflym. Cysylltwch â Chyngor ar Bopeth, a all eich cynghori ymhellach:

<https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/>

ii. **Cymorth digartrefedd** (*Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat*)

Mae achos Covid-19 yn amser pryderus i bawb, heb sôn os ydych mewn perygl o fod yn ddigartref, neu wedi dod yn ddigartref yn ddiweddar. Mae deddfwriaeth newydd drwy Ddeddf Coronafeirws Llywodraeth y DU 2020 (darllenwch Ran 6.ii o'r canllaw hwn) yn golygu bod yn rhaid i'ch landlord roi o leiaf 3 mis o rybudd cyn y gall gyflwyno gorchymyn adennill meddiant ar unrhyw sail i'ch troi allan o'ch eiddo. Rydym wedi gofyn i bob landlord fod yn gefnogol drwy achosion Covid-19, ond os ydych yn debygol o fod mewn perygl o fod yn ddigartref, neu wedi colli eich cartref, mae'r wybodaeth hon yn dweud wrthyb beth mae angen i chi ei wybod.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i atal digartrefedd neu helpu i sicrhau llety - mae hyn yn berthnasol i bob ymgeisydd sy'n gymwys ac sydd naill ai mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n ddigartref yn barod. Dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol cyn gynted â phosibl i weld pa gymorth y gall ei ddarparu, oherwydd efallai y gall sicrhau eich bod yn aros yn eich eiddo presennol os yw'n ddiogel ac yn bosibl gwneud hynny drwy achosion Covid-19.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich awdurdod lleol drwy nodi eich cod post yma:

<https://www.gov.uk/find-local-council>

Mae nifer o sefydliadau eraill hefyd sy'n gallu cynnig cymorth, a nodir eu manylion yn Rhan 7. i. o'r canllaw hwn.

iii. Cymorth arall (*Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat*)

Efallai y bydd eich awdurdod lleol yn gallu cynnig cymorth ychwanegol i chi gan ddibynnu ar eich amgylchiadau unigol, neu eich cyfeirio at ragor o gymorth sydd ar gael drwy fudiad gwirfoddol sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod lleol. Bydd hyn yn amrywio rhwng awdurdodau lleol ac fel y cyfryw, awgrymir eich bod yn cysylltu'n uniongyrchol â'ch awdurdod lleol i weld pa gymorth, cyngor a chanllawiau pellach y gall eu darparu.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich awdurdod lleol drwy nodi eich cod post yma:

<https://www.gov.uk/find-local-council>

4. Help gyda'ch biliau o ddydd i ddydd a'ch costau byw

(Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat)

Efallai y byddwch yn cael trafferth talu biliau eich cartref o ganlyniad i newidiadau i'ch incwm yn ystod achos Covid-19. Rydym wedi nodi rhai dewisiadau sydd ar gael i chi isod a allai eich helpu yn ystod y cyfnod hwn.

i. Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth

Os ydych yn hunanynysu oherwydd bod gennych gyflwr iechyd sy'n eich gwneud yn fwy agored i niwed, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth.

Mae'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth yn wasanaeth am ddim sy'n cynnig sawl budd fel cymorth â blaenoriaeth mewn argyfwng, rhybudd ymlaen llaw am ymyriadau yn y cyflenwad a rhagor o fanteision wrth reoli eich cyfrif ynni. Mae gan bob cyflenwr ynni a gweithredwr rhwydwaith ei gofrestr ei hun ac i fynd arno, mae angen i chi gysylltu â'ch cyflenwr ynni yn uniongyrchol a thrafod eich amgylchiadau unigol.

Cymhwysedd

Rydych chi'n gymwys:

- os ydych chi o oedran pensiwn
- os ydych chi'n anabl neu fod gennych salwch cronig
- os oes gennych gyflwr meddygol hirdymor
- os oes gennych nam ar y clyw neu'r golwg neu anghenion cyfathrebu ychwanegol
- os ydych chi mewn sefyllfa fregus.

Sut mae gwneud cais

- Mae angen i chi gysylltu â'ch cyflenwr ynni yn uniongyrchol i fynd ar y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth. Mae gan bob cyflenwr ynni a gweithredwr rhwydwaith ei gofrestr ei hun.
- Gallwch ofyn i'ch cyflenwr drosglwyddo eich manylion i'ch gweithredwr rhwydwaith, yn enwedig os ydych yn dibynnu ar eich cyflenwad am resymau meddygol, er enghraifft.
- Os oes gennych gyflenwr gwahanol ar gyfer eich nwy a thrydan, mae angen i chi gysylltu â'r ddau.

- Os byddwch yn newid cyflenwr, bydd angen i chi gofrestru eto ar gyfer y gwasanaeth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

<https://www.ofgem.gov.uk/consumers/household-gas-and-electricity-guide/extra-help-energy-services/priority-services-register>

ii. Dŵr

Os ydych chi'n cael trafferth talu eich bil dŵr, dylech gysylltu â'ch cyflenwr ar unwaith. Mae gan lawer o gwmnïau dŵr gynlluniau caledi neu ffyrdd eraill y gallant helpu cwsmeriaid sy'n rhoi gwybod iddynt eu bod yn cael problem talu eu bil.

Os ydych gyda Dŵr Cymru, mae wedi nodi'r cymorth y gall ei ddarparu, sy'n cynnwys cynlluniau talu a gostyngiadau yn y gyfradd ddŵr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

<https://www.dwrcymru.com/cy-GB/My-Account/Help-Paying-My-Water-Bill.aspx>

iii. Nwy/trydan

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno ar fesurau gyda'r diwydiant ynni i gefnogi pobl sy'n agored i niwed drwy Covid-19. Mae'r cynigion y cytunwyd arnynt i sicrhau bod cwsmeriaid sy'n agored i niwed a allai fynd i ddyled yn parhau i gael ynni tra maent yn hunanynysu yn cynnwys;

- sicrhau bod cwsmeriaid talu ymlaen llaw a thalu wrth fynd yn cael ynni drwy amseroedd heriol a chefnogi pob cwsmer sy'n dioddef trallod ariannol.
- cytundeb diwydiant wedi'i lofnodi gan bob cyflenwr domestig yn y DU.

Yn fwy cyffredinol, bydd unrhyw gwsmer ynni sydd mewn trallod ariannol hefyd yn cael cefnogaeth gan ei gyflenwr, a allai gynnwys ad-dalu dyledion ac ailasesu taliadau bil, eu lleihau neu eu rhewi lle bo angen, tra bydd datgysylltu mesuryddion credyd yn cael ei atal yn llwyr.

- Os ydych yn poeni na fyddwch yn gallu talu eich biliau ynni dylech gysylltu â'ch cyflenwr ar unwaith a thrafod y dewisiadau a allai fod ar gael i chi, i'ch helpu i gadw eich taliadau ar y trywydd iawn yn ystod Covid-19.
- Efallai y byddwch hefyd am wneud yn siŵr eich bod yn cael y fargen orau o ran eich ynni. Dylai cyflenwyr ynni allu rhoi gwybodaeth i chi i weld a ydych ar y pecyn cywir, neu a oes ganddynt un rhatach ar eich cyfer. Er mwyn cymharu â chyflenwyr ynni eraill, bydd angen i chi ddefnyddio safle cymharu prisiau ar-lein.

iv. Band eang a ffonau symudol

Mae cadw cysylltiad rhwng y cartref a'r byd y tu allan yn bwysig ar hyn o bryd. Os ydych chi'n poeni am dalu eich bil band eang neu ffôn symudol, dylech gysylltu â'ch cyflenwr ar unwaith, oherwydd efallai y bydd yn gallu rhoi cynllun talu neu gymorth arall ar waith i'ch helpu i gadw mewn cysylltiad.

v. Banciau / cardiau credyd / benthyciadau

Gall dyled banc, cerdyn credyd a benthyciad gronni'n gyflym a bod yn destun pryder mawr, ond mae'n bwysig rhoi trefn ar unrhyw ddyledion eraill fel ôl-ddyledion rhent, biliau ynni neu'r dreth gyngor yn gyntaf. Y rheswm am hyn yw bod canlyniadau uniongyrchol peidio â thalu'r pethau hyn yn llawer mwy difrifol.

Mae llawer o fanciau a chwmnïau cardiau credyd yn cynnig gwyliau rhag talu, mwy o gyfleusterau gorddrafft a chyfraddau llog isel i helpu pobl drwy gydol cyfnod Covid-19.

Os ydych chi'n poeni am dalu eich taliadau banc neu gerdyn credyd, dylech gysylltu â'ch cyflenwr ar unwaith, oherwydd efallai y byddant yn gallu rhoi cynllun talu neu gymorth arall ar waith i'ch helpu.

Mae sawl busnes wedi mynd i drafferthion ariannol yn ystod Covid-19, ac mae rhai wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, er enghraifft BrightHouse. Er gwaethaf hyn, mae'n bwysig cofio bod unrhyw ddyled sy'n ddyledus yn parhau a bydd disgwyl i chi ddal i wneud eich taliadau ariannol. Os ydych chi'n cael trafferth talu, cysylltwch â'r cwmni i drafod pa gymorth y mae'n gallu ei gynnig. Bydd Cyngor ar Bopeth yn gallu helpu os oes angen cymorth arnoch i wneud hyn.

Os ydych yn agosáu at oedran pensiwn ac yn poeni am y farchnad ariannol ac yn ystyried eich dewisiadau o ran eich pensiwn, neu fel arall, mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yn awgrymu nad ydych yn rhuthro i wneud penderfyniad, ac y dylech gael cyngor annibynnol. Gallwch gael gafael ar ganllaw pensiwn Cymraeg clir am ddim cyn gwneud unrhyw benderfyniad am eich cynilion ymddeol drwy [wefan y Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau](#).

Mae'r FCA hefyd yn awgrymu eich bod yn wylidwrus o sgamiau ar hyn o bryd ac yn mynd i [wefan Scam Smart](#) i ddysgu sut i ddiogelu eich hun rhag sgamiau pensiwn. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd eisoes wedi ymddeol ac sy'n ailfeddwl eu dewisiadau.

vi. Trwydded deledu

Mae'r BBC wedi cyhoeddi ei fod yn oedi cyn codi tâl ar bobl dros 75 oed am drwyddedau teledu tan fis Awst, yng ngoleuni'r achosion o Covid-19. Os ydych yn cael trafferth talu eich trwydded deledu ac nad ydych yn perthyn i'r categori oedran hwn,

dylech gysylltu â'r cwmni trwyddedu teledu ar unwaith i drafod pa ddewisiadau sydd ar gael i chi. Gallwch weld eu manylion yma:

<https://www.tvlicensing.co.uk/languages/LANG1>

vii. Prydau ysgol am ddim

Os oes gan eich plentyn neu blant hawl i gael prydau ysgol am ddim, byddwch yn dal i gael y cymorth hwn, er bod yr ysgolion ar gau.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru i gyd wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn parhau i'w cael. Gall y trefniadau hyn amrywio yn ôl ardal yr awdurdod lleol rydych yn byw ynddi.

Dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael gwybod sut mae'r cynllun yn cael ei weinyddu, os nad yw wedi cysylltu â chi'n barod. Gallwch ddod o hyd i'w fanylion cyswllt drwy nodi eich cod post yma a chwilio am ei fanylion cyswllt drwy ei wefan:

<https://www.gov.uk/find-local-council>

viii. Banciau bwyd

Mae banciau bwyd yn gwneud popeth o fewn eu gallu i barhau i weithredu drwy Covid-19 ac i'ch helpu gyda chyflenwadau bwyd. Fodd bynnag, cofiwch y gallai'r broses gyfeirio rydych yn ei dilyn i gael gafael ar y bwyd fod wedi newid yn eich ardal leol ar hyn o bryd. Mae rhai banciau bwyd hefyd wedi gorfod cau neu nid ydynt ar agor am gymaint o oriau oherwydd Covid-19.

Oherwydd cyngor ar gadw pellter cymdeithasol ac er eich diogelwch, mae'n bosibl bod y broses ar gyfer cael gafael ar fwyd gan fanc bwyd wedi newid yn dibynnu ar eich ardal leol. Oherwydd hyn, mae'n syniad da i chi holi am y trefniadau wrth siarad â'ch asiantaeth atgyfeirio neu gysylltu â hi dros y ffôn cyn mynd i'r banc bwyd i ddeall pa drefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd.

Gallwch ddod o hyd i'ch banc bwyd lleol drwy ddefnyddio'r wefan ganlynol:

<https://www.trusselltrust.org/get-help/find-a-foodbank/>

Cael gafael ar gyflenwadau gan fanc bwyd:

Bydd angen taleb bwyd arnoch, naill ai drwy eich cymdeithas dai, gwasanaethau cynghori lleol, rhai swyddfydd Cyngor ar Bopeth Lleol, gwasanaethau cymdeithasol neu asiantaethau lleol fel canolfannau plant. Mae Ymddiriedolaeth Trussell bellach wedi rhoi system e-atgyfeirio ar-lein ar waith ar gyfer rhai o'u banciau bwyd, i helpu i gynnal mesurau cadw pellter cymdeithasol yn ystod achosion Covid-19.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

<https://www.trusselltrust.org/get-help/emergency-food/>

5. Help mewn argyfwng os oes gennych broblemau ariannol difrifol *(Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat)*

i. Cronfa Cymorth Dewisol (DAF)

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) yn gronfa y gellir troi ati pan fyddwch wedi chwilio ym mhob man arall. Ei bwriad yw cefnogi pobl sy'n profi caledi difrifol. Bydd llawer o'r bobl hyn ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas oherwydd materion sy'n ymwneud â thlodi, materion iechyd corfforol a meddyliol ac oedran, ac felly maent yn wynebu mwy o risg o effeithiau Covid-19, oherwydd rhesymau sy'n ymwneud ag iechyd neu'r economi.

Mae'r gronfa yn cynnwys dau fath o grant:

ii. Taliad Cymorth mewn Argyfwng (EAP)

Mae'r EAP yn grant sy'n helpu gyda chostau hanfodol ar ôl argyfwng neu os bydd hawliwr wedi profi trychineb megis llifogydd neu dân yn y cartref, neu galedi ariannol difrifol am resymau sy'n cynnwys oedi gyda thalu budd-daliadau.

Bwriad y taliad yw helpu i dalu am fwyd, nwy a thrydan, dillad a chostau teithio brys. Nid yw'r gronfa wedi'i chynllunio i dalu am ddiffygion ariannol parhaus ond mae'n grant y gellir manteisio arno pan fyddwch wedi rhoi cynnig ar gael arian o bob man arall.

Mae nifer o daliadau brys ar gael - nid oes unrhyw feini prawf cymhwyster, ar wahân i angen, ar ôl rhoi cynnig ar gael arian o bob man arall.

Rydych yn gallu hawlio 1 dyfarniad mewn 28 diwrnod a 3 dyfarniad mewn cyfnod treigl o 12 mis.

Gallwch gael EAP yn syth i'ch cyfrif banc. Bydd angen i chi ddarparu eich cod didoli a rhif eich cyfrif fel rhan o'ch cais.

iii. Taliad Cymorth i Unigolion (IAP)

Grant yw taliadau IAP i helpu rhywun i fyw'n annibynnol yn hytrach na mynd i sefydliad neu aros yno, megis cartref gofal neu ysbyty. Mae'r grant yn cwmpasu eitemau hanfodol yn y cartref fel

- nwyddau gwyn, fel oergell, popty a pheiriant golchi
- eitemau cartref hanfodol megis gwelyau, dillad gwely a seddau

Mae angen i'r ceisiadau hyn gael eu cefnogi gan 'bartner cymeradwy'.

Gall sefydliad partner cymeradwy eich helpu i lenwi eich cais neu wneud cais ar eich rhan. Mae'n cynnwys:

- awdurdodau lleol
- cymdeithasau tai
- sefydliadau cyngor ac arweiniad
- elusennau
- gwasanaethau carchardai
- gwasanaethau iechyd

Cyn i chi wneud cais

I wneud cais am y Gronfa Cymorth Dewisol, bydd angen y canlynol arnoch:

- eich rhif yswiriant gwladol
- eich enw llawn
- eich dyddiad geni
- eich rhifau ffôn cyswllt gan gynnwys rhif ffôn symudol sy'n gweithio
- enwau llawn, dyddiadau geni a rhifau Yswiriant Gwladol ar gyfer pawb sy'n byw yn eich cartref
- eich cyfeiriad a'ch cod post llawn ar hyn o bryd
- eich hanes cyfeiriad
- eich cyfeiriad yn y carchar (os cawsoch eich rhyddhau'n ddiweddar)
- os yw'n berthnasol, dyddiad cychwyn eich tenantiaeth a manylion llawn yr eiddo rydych yn symud iddo
- manylion y budd-daliadau rydych yn eu cael a faint rydych yn ei gael
- manylion unrhyw sefydliadau sy'n eich helpu
- manylion incwm a threuliau'r cartref
- manylion eich cynilion
- beth sydd ei angen arnoch gan DAF
- manylion pam fod angen help arnoch ac unrhyw wybodaeth ategol (er enghraifft rhif cyfeirnod trosedd yr heddlu os ydych wedi dioddef trosedd)
- manylion eich cyfrif banc

Sut mae gwneud cais

Gallwch wneud cais ar-lein yn:

<https://llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf/sut-i-wneud-cais>

Gallwch hefyd wneud cais dros y ffôn, ond maent yn cael **nifer uchel o alwadau**, felly mae'n bosibl y byddwch yn aros am hir.

Mae ceisiadau'n cymryd hyd at 20 munud i'w cwblhau.

0800 8595924 (am ddim o linell dir)

033 0101 5000 (cyfraddau lleol).

Mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 9.30am a 4.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

6. Help os yw eich landlord wedi dweud wrthy ch eich bod yn cael eich troi allan

(Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat

i. Siarad â'ch landlord neu asiant rheoli

Mae'r dull cadarnhaol a rhagweithiol y mae llawer o landlordiaid ac asiantau rheoli yn ei gymryd i gefnogi eu tenantiaid drwy'r argyfwng hwn yn galonogol. Os ydych chi'n credu eich bod yn mynd i gael trafferth talu eich rhent, neu'n debygol o gael ôl-ddyledion rhent, mae'n bwysig cysylltu â'ch landlord neu asiant rheoli yn gyflym.

Mae'n bwysig eich bod yn parhau i dalu eich rhent, felly po gynharaf y byddwch yn cysylltu, gorau po gyntaf y cânt wybod am eich trafferth a bydd gennych gyfle gwell i gael cymorth cyn i'r ddyled fynd y tu hwnt i'ch rheolaeth.

Os ydych yn rhentu yn y sector preifat, efallai y bydd eich landlord yn cael gwyliau taliad morgais gan y banc, os yw'r eiddo dan forgais. O'r herwydd, efallai y bydd eich landlord yn gallu cynnig rhent gostyngol i chi am gyfnod byr, gohirio ad-dalu eich taliadau rhent neu gynnig cynllun talu i chi, os yw'n ymarferol. Sylwch y caiff trefniant o'r fath ei wneud yn ôl disgrisiwn y landlord.

Os ydych yn rhentu yn y sector tai cymdeithasol, efallai y bydd eich awdurdod lleol neu gymdeithas dai yn gallu eich helpu drwy gynllun talu, neu drefniant arall.

Rydym yn deall y gall fod yn anodd siarad â landlord os ydych eisoes mewn ôl-ddyledion rhent. Os oes angen help arnoch i fynd at eich landlord neu asiant, siaradwch â'ch canolfan [Cyngor ar Bopeth](#), a all eich helpu i baratoi.

Os ydych yn hawlio'r Credyd Cynhwysol, a bod gennych ôl-ddyledion rhent neu'n cael trafferth reoli eich taliad Credyd Cynhwysol misol, efallai y gallwch weithio gyda'ch hyfforddwr gwaith i roi Trefniant Talu Amgen (APA) ar waith, i wneud yn siŵr bod y taliad rhent yn cael ei wneud i'ch landlord yn uniongyrchol, fel na fyddwch mewn perygl o golli eich cartref. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yma:

- <https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-alternative-payment-arrangements>

Gallwch ofyn am hyn drwy eich cyfnodolyn ar-lein, drwy siarad â'ch hyfforddwr gwaith, neu drwy ffonio llinell gymorth y Credyd Cynhwysol (darllenwch Ran 2.i. o'r canllaw hwn).

v. **Hysbysiad ceisio meddiant (NSP)**

Mae Deddf Coronafeirws 2020, sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, wedi cynyddu'r cyfnod rhybudd sy'n ofynnol i ddod â thenantiaeth i ben i 3 mis. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu rhentwyr rhag cael eu troi allan ar unrhyw sail, gan gynnwys y rhai a allai fynd i ôl-ddyledion rhent. Cofiwch y gall eich landlord roi hysbysiad i chi o hyd ond ni fydd yn effeithiol am 3 mis. Os byddwch yn cael hysbysiad dylech ofyn am gyngor gan Shelter Cymru <https://sheltercymru.org.uk/> neu eich canolfan Cyngor ar Bopeth leol <https://www.citizensadvice.org.uk/wales/>.

vi. **Achosion cymryd meddiant presennol**

Bydd y broses atal 90 diwrnod newydd o achosion meddiant a ddaeth i rym ar 27 Mawrth yn effeithio ar unrhyw hawliadau meddiant presennol yn y system llysoedd, neu sydd ar fin mynd i'r system llysoedd. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw achos llys sy'n ymwneud â gorchmynion meddiannu, gwarantau neu droi allan yn cael ei gynnal am 90 diwrnod.

Mae hysbysuadau a gyflwynwyd cyn 26 Mawrth yn aros yn ddilys a bydd y broses atal 90 diwrnod yn effeithio arnynt hefyd.

Os ydych wedi cael rhybudd troi allan nad yw'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd hon, neu os ydych yn poeni bod eich landlord neu asiant yn gweithredu'n anghyfreithlon, cysylltwch â:

Cyngor ar Bopeth: <https://www.citizensadvice.org.uk/wales/about-us/contact-us/contact-us/contact-us/>

Advicelink Cymru: 03444 772 020

(mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 9yb-5yp o ddydd Llun i ddydd Gwener ac maent fel arfer yn brysurach ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd. Nid ydynt ar agor yn ystod gwyliau cyhoeddus)

Gwasanaeth cyfnewid testun: 03444 111 445

Shelter Cymru: <https://sheltercymru.org.uk/contact-us/>

Cyngor/cymorth gyda thai a chyngor arbenigol ar ddyledion: 08000 495 495 (mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 9.30yb a 4.00yp, o ddydd Llun i ddydd Gwener)

7. Lle gallwch droi am ragor o help, cefnogaeth ac arweiniad

(Mae hyn yn berthnasol i denantiaid y sector cymdeithasol a'r sector preifat)

i. Cysylltiadau allweddol

Mae nifer o sefydliadau sy'n gallu rhoi cyngor, arweiniad a chefnogaeth os ydych yn cael trafferth gyda'ch tŷ.

- **Tenantiaid y sector rhentu preifat**

Rydym wedi rhoi cyngor i denantiaid yn y sector rhentu preifat yma:

<https://gov.wales/coronavirus-covid-19-guidance-tenants-private-rented-sector>

Os oes gennych broblemau ariannol, neu'n poeni y byddwch yn mynd ar ei hôl hi gyda'ch taliadau rhent a'ch biliau yn sgil Covid-19, mae'n bwysig eich bod yn siarad â'ch landlord neu asiant yn gyflym gan y gallent eich helpu.

- **Tenantiaid y sector rhentu cymdeithasol**

Os oes gennych broblemau ariannol, neu'n poeni y byddwch yn mynd ar ei hôl hi gyda'ch taliadau rhent a'ch biliau yn sgil Covid-19, mae'n bwysig eich bod yn siarad â'ch cyngor neu gymdeithas dai yn gyflym gan y gallant eich helpu.

- **Shelter Cymru**

<https://sheltercymru.org.uk/>

Cyngor/cymorth gyda thai a chyngor arbenigol ar ddyledion: 08000 495 495 (mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 9.30yb a 4.00yp, o ddydd Llun i ddydd Gwener)

E-bost: <https://sheltercymru.org.uk/email-advice/>

Tudalen benodol ar Covid-19: <https://sheltercymru.org.uk/get-advice/coronavirus/>

- **Cyngor ar Bopeth**

<https://www.citizensadvice.org.uk/wales/>

Tudalen benodol ar Covid-19:

<https://www.citizensadvice.org.uk/wales/health/coronavirus-what-it-means-for-you/>

Advicelink Cymru: 03444 772 020

(mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 9yb-5yp o ddydd Llun i ddydd Gwener ac maent fel arfer yn brysurach ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd. Nid ydynt ar agor yn ystod gwyliau cyhoeddus)

Gwasanaeth cyfnewid testun: 03444 111 445

Sgwrsiwch â chynghorydd dyledion Cyngor ar Bopeth ar-lein yma:

<https://www.citizensadvice.org.uk/wales/about-us/contact-us/contact-us/chat-service-money-and-debt/>

Mae'r gwasanaeth sgwrsio hwn ar gael o 8yb i 7yp fel arfer, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nid yw ar gael yn ystod gwyliau cyhoeddus.

Sgwrsiwch am fater arall â chynghorydd **Cyngor ar Bopeth** ar-lein:

<https://www.citizensadvice.org.uk/wales/about-us/contact-us/contact-us/web-chat-service/>

Mae'r gwasanaeth sgwrsio hwn ar gael o 10yb i 4yp fel arfer, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nid yw ar gael yn ystod gwyliau cyhoeddus.

- **Undebau Credyd**

Efallai y bydd modd i chi gael benthygiad drwy Undeb Credyd. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yma;

<https://creditunionsofwales.co.uk/>

Mae yna hefyd nifer o elusennau sy'n darparu cymorth dyledion a chynghor i'r rhai sy'n cael trafferth gyda'u costau. Er enghraifft:

- **Elusen Dyledion Step Change:**

<https://www.stepchange.org/>

- **Money Saving Expert**

Gellir dod o hyd i rai adnoddau defnyddiol yma, ond dylech gofio nad ydynt i gyd yn berthnasol i Gymru.

<https://www.moneysavingexpert.com/?msclkid=ca9e9007c6341de0702dce824960895d>

- **Turn2Us**

Mae grantiau nad oes yn rhaid eu talu'n ôl ar gael yn seiliedig ar ble rydych chi'n byw a'ch cefndir gweithio. Defnyddiwch adnodd gwirio **Turn2us** i chwilio am grantiau a gwneud cais:

<https://grants-search.turn2us.org.uk/>

- **Cynlluniau Gwirfoddol Cymunedol**

Mae nifer o Gynlluniau Cymunedol Gwirfoddol yn gweithredu drwy'r achosion o Covid-19. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i weld a oes un yn addas ar gyfer eich anghenion chi:

<https://www.gov.uk/find-local-council>

- **Cymorth i fyfyrwyr**

Os ydych chi'n byw mewn llety myfyrwyr yn y sector rhentu preifat, dylech siarad â'ch landlord neu asiant yn gyntaf gan y gallant eich helpu os oes gennych broblemau ariannol o ganlyniad i Covid-19. Ar ben hynny, mae Prifysgolion unigol yn cynnig amrywiaeth o gronfeydd caledi. Bydd angen i fyfyrwyr gysylltu â'r swyddfeydd lles/cymorth i fyfyrwyr yn uniongyrchol i gael gwybod am y rhain. Mae canllawiau wedi'u cyhoeddi yma hefyd:

https://llyw.cymru/addysg-uwch-chymorth-i-myfyrwyr-coronafeirws?_ga=2.66774510.1505612231.1586847848-1341053822.1557741678

Os ydych yn aelod o Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM), efallai y byddant hefyd yn gallu eich cyfeirio at y cymorth priodol. Gallwch gysylltu â nhw yma:

<https://www.nus.org.uk/>

- **Pobl sy'n gadael carchar**

Prison Link Cymru – cymorth i bobl sy'n dal yn y carchar, wedi'i ddarparu gan Shelter Cymru kathd@sheltercymru.org.uk yng ngogledd Cymru a'r grŵp Pobl yn ne Cymru. sarah.burke@poblgroup.co.uk

Justice Cymru – Mae grŵp Pobl yn gweithredu ar ran y rhai sy'n gadael carchar: sarah.burke@poblgroup.co.uk

- **Crisis**

<https://www.crisis.org.uk/about-us/wales/>

<https://www.crisis.org.uk/get-help/south-wales/>

01792 674900

southwales@crisis.org.uk

- **Llamau**

<https://www.llamau.org.uk/>

<https://www.llamau.org.uk/Pages/FAQs/Category/coronavirus-how-to-get-support-if-you-need-it>

029 2023 9585 neu e-bostiwrch: enquiries@llamau.org.uk

- **Cyfrifianellau budd-daliadau**

Adnoddau defnyddiol i benderfynu ar yr hyn y gallech fod yn gymwys i'w hawlio.

<https://www.gov.uk/benefits-calculators>